

BookTrust Cymru

Gwahoddiad tendro i gynhyrchu ffilmiau byrion ar gyfer rhaglen Pori Drwy Stori

Bydd y ffilmiau byrion yn cefnogi Her Rigymu newydd Pori Drwy Stori.

Darperir y rhaglen mewn ysgolion yng Nghymru ac mae ar gael i blant y Derbyn (4-5 oed).

Dyddiad cau derbyn cynigion: 5pm, Dydd Mercher 10 Ebrill 2019

Am BookTrust Cymru

BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU. Darperir ein gwaith yng Nghymru gan ein swyddfa yn y wlad, BookTrust Cymru. Rydym ni'n gweithio er mwyn ysbrydoli cariad at ddarllen ymhlith plant am ein bod ni'n gwybod y gall darllen drawsnewid bywydau. Rydym ni'n rhannu dros 3.4 miliwn o lyfrau a ddedolwyd yn ofalus i blant ledled y DU; yng Nghymru a Lloegr bydd pob rhiant yn derbyn llyfr BookTrust yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd eu babi drwy gyfrwng ein rhaglen Dechrau Da. Mae ein llyfrau, arweiniad ac adnoddau'n cael eu rhannu gan ymarferwyr iechyd, llyfrgelloedd, ysgolion a blynyddoedd cynnar, ac fe'u cefnogir gan gyngor ac adnoddau er mwyn annog yr arfer o ddarllen.

Mae darllen er pleser yn cael effaith ddramatig ar ddeilliannau addysgol, llesiant a symudedd cymdeithasol, yn ogystal â bod yn bleser enfawr ynddo'i hun. Rydym ni wedi ymrwymo i gyhwyn plant ar eu taith ddarllen, a'u cefnogi ar ei hyd.

Am Pori Drwy Stori

Mae Pori Drwy Stori yn annog teuluoedd i fwynhau llyfrau, rhigymau a rhifau gyda'i gilydd, ac mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth gydag ysgolion yng Nghymru. Bydd pob plentyn yn y Derbyn (4-5 oed) yng Nghymru'n derbyn adnodd llythrennedd a rhifedd a gynlluniwyd yn arbennig bob tymor. Cynlluniwyd y rhaglen i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen ac, yn hanfodol, i gefnogi rhieni a gofawyr i chware rôl hyfyw yn addysg eu plant ac i gefnogi ysgolion i ddatblygu dolen gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref.

Yn 2017-18, fe wnaeth BookTrust Cymru dreialu estyniad i'r rhaglen ar gyfer plant Meithrin (3-4 oed), gan ganolbwyntio ar sgiliau llafaredd / siarad a gwrando. Cyflwynwyd y rhaglen Feithrin i gyrraedd 10,000 o blant yn 2018-19 a bydd yn parhau yn 2019-20.

Mae BookTrust Cymru'n darparu rhaglen lawn o gefnogaeth i athrawon ac ymarferwyr eraill, i'w galluogi i gael y gorau o Pori Drwy Stori.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y rhaglen, gan gynnwys detholiad o astudiaethau achos, yma: <https://www.booktrust.org.uk/what-we-do/programmes-and-campaigns/poridrwystori/>

Gellir cael manylion am adnoddau'r rhaglen ar ddiwedd y ddogfen hon:

- Atodiad 1: Rhaglen Pori Drwy Stori Derbyn

- Atodiad 2: Adnoddau'r Her Rigymu newydd
- Atodiad 3: Rhigymanu a chaneuon yr Her Rigymu newydd
- Atodiad 4: Cymeriadau anturio Pori Drwy Stori

Pwrpas y cytundeb hwn

Cynhyrchu cyfres o ffilmiau byrion i gefnogi rhaglen newydd a diwygiedig **Her Rigymu Pori Drwy Stori ar gyfer plant y Derbyn**.

Seiliwyd yr Her Rigymu newydd ar 20 rhigwm a chân (10 yn Gymraeg, 10 yn Saesneg), a ddetholwyd i gefnogi plant â galluoedd amrywiol (gan gynnwys yn y ddwy iaith) ac i gynnig cynnydd a her.

Mae'r Her Rigymu newydd yn canolbwyntio ar gyfnod o 5 wythnos, a bydd pob plentyn yn dysgu o leiaf un rhigwm neu gân yr wythnos (bydd modd i athrawon ddewis sut i ddefnyddio'r rhaglen yn y ffordd orau ar gyfer eu dosbarth nhw). Mae pob set o rigymau wedi'u grwpio yn ôl thema benodol. Dewiswyd y themâu hyn i greu diddordeb ac ymgysylltiad, ac i gefnogi deilliannau addysgol a datblygol penodol (e.e. datblygiad ieithyddol, sgiliau symud ac ati).

Seilir yr Her Rigymu ar gyfres o adnoddau copi caled ar gyfer plant, a ddefnyddir yn yr ysgol a'r cartref (gweler Atodiad 2). Fe'i seilir ar gysniad 'taith drwy rigymau a chaneuon' ac mae'n defnyddio cymeriadau anturio Pori Drwy Stori.

Gofyniad craidd:

Rydym ni am i bob rhigwm neu gân gael ffilm 'high-resolution' o ansawdd uchel i gyd-fynd â nhw, i alluogi plant, rhieni / gofalwyr ac ymarferwyr i allu ymwneud â nhw.

Mae'r rhigymanu a chaneuon yn amrywio o ran hyd, ac ar gyfartaledd maen nhw'n para tua 1-2 funud.

Ystyriwch:

Awgrymodd rhanddeiliad y dylid datblygu set ychwanegol o ffilmiau byrion i roi'r Her Rigymu yn ei gyd-destun ac ymestyn ar nodwedd 'taith drwy rigymau a chaneuon' e.e. drwy ddefnyddio'r cymeriadau anturio i gyflwyno'r rhigymanu bob wythnos (gallai hyn fod yn actorion yn chwarae'r cymeriad neu drwy ddefnyddio animeiddio syml). Mae'r syniadau hyn yn dal i gael eu datblygu, ac rydym ni'n croesawu cyfleoedd gan ymgeiswyr i:

- a) Wneud sylw ar ddichonoldeb y syniad hwn o fewn y gyllideb sydd ar gael;
- b) rhannu unrhyw syniadau creadigol ar gyfer yr agwedd hon ar y gwaith.

Amcanion y ffilmiau

- Galluogi plant, rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr i ymuno yn y rhigymanu a'r caneuon h.y. drwy arddangos cyflwyno clir;
- Denu plant a rhieni / gofalwyr i fwynhau'r rhigymanu a chaneuon a chreu hwyl, mwynhad a diddordeb;
- Dod â Her Rigymu Pori Drwy Stori yn fyw i blant a theuluoedd

Yr hyn y dylid ei gyflwyno

Lleiafswm o:

- 20 ffilm fer yn arddangos pob rhigwm a chân yn Her Rigymu Pori Drwy Stori.

I'w ystyried:

- Cyfres o ffilmiau cyflwyno byr (neu rywbeth tebyg – mae croeso i ymgeiswyr rannu syniadau creadigol) sy'n rhoi'r rhigymau yn eu cyd-destun ar gyfer pob wythnos (manylion i'w cadarnhau, gan dynnu ar fewnbwn gan yr ymgeisydd llwyddiannus ynghyd â rhanddeiliaid)

Dylid isdeitlo ffilmiau (yn iaith y ffilm) er mwyn cefnogi ymgysylltu.

Comisiynwyd gwaith celf i gefnogi'r Her Rigymu a bydd hwn ar gael i'r sefydliad a gytundebwyd i'w ddefnyddio yn y ffilmiau i'w cysylltu â'r adnoddau copi caled. Mae hyn yn cynnwys cymeriadau archwili ychwanegol ynghyd â darlun syml ar gyfer pob rhigwm a chân.

Hyd

Bydd ffilmiau tua 1-2 funud o hyd wedi'u lleoli yn adran Pori Drwy Stori o wefan BookTrust.

Byddant ar gael yn ogystal ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Cynulleidfa darged

Dylai'r ffilmiau fod yn ddeniadol i blant yn ogystal â rhieni / gofalwyr.

Dylent hefyd fod yn hygyrch i ymarferwyr fel cefnogaeth ddysgu (e.e. ymgyfarwyddo â'r caneuon a'r rhigymau).

Dylent fod yn addas ar gyfer eu defnyddio yn yr ysgol a'r cartref.

Cynnwys

Dylai'r ffilmiau fod:

- Yn hwyliog a deniadol, ac yn addas i'r gynulleidfa – yn enwedig plant bach;
- Yn dod â'r rhigymau'n fyw;
- Wedi'u hamseru a'u hanelu ar gyfer y gynulleidfa (plant bach, dysgwyr Cymraeg, plant a theuluoedd â Saesneg neu Gymraeg fel iaith Ychwanegol);
- Yn unol ag ethos yr Her rigymu a brand ac arddull Pori Drwy Stori;
- Yn dangos pob rhigwm a chân yn glir, yn union fel y fersiwn ysgrifenedig a geir yn yr adnoddau – gan gynnwys unrhyw symudiadau sy'n cyd-fynd;
- Yn cynnwys isdeitlo yn iaith y rhigwm neu'r gân;
- Yn cynnwys sleid clawr a diwedd (manylion i'w darparu gan BookTrust Cymru).

Am mai un o flaenoriaethau allweddol y ffilmiau yw galluogi defnyddwyr i ymgyfarwyddo â'r rhigymau, mae cyflwyniad clir a bod yn driw i'r rhigymau'n allweddol. Felly byddem ni'n gofyn fod y rhigymau a'r caneuon yn cael eu 'perfformio' gan bobl broffesiynol.

Serch hynny, gwyddom hefyd fod plant yn mwynhau gweld plant eraill ar sgrin, ac y gall hyn gefnogi ymgysylltu; gwahoddir ymgeiswyr i ystyried mathau gwahanol o ddeunydd cyflwyno.

Croesewir awgrymiadau creadigol gan ymgeiswyr ynghylch sut y gellir dod â'r rhigymau a chaneuon yn fyw, a defnyddio'r ffilmiau hyn fel cyfle i wir ymgysylltu â phlant a theuluoedd a helpu i greu cynnwys ar lein o ansawdd uchel i gefnogi adnoddau'r Her Rigymu.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed syniadau gan ymgeiswyr sy'n cwrdd â gofynion craidd y ffilmiau, ac sy'n rhoi awgrymiadau creadigol ynghylch datblygu'r adnoddau ymhellach.

Nodyn: cynhyrchwyd gwaith celf i gyd-fynd â Her Rigymu Pori Drwy Stori, gan gynnwys darlun ar gyfer pob rhigwm ac ambell gymeriad / mascot Pori Drwy Stori newydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu defnyddio'r gwaith celf hwn ar gyfer y ffilmiau.

Dwyieithrwydd

Bydd 10 ffilm yn canolbwyntio ar rigymau Cymraeg, a 10 ar rigymau Saesneg.

Dylai pob sleid fod yn ddwyieithog.

Dylai unrhyw gynnwys ychwanegol fod yn ddwyieithog a / neu gynnig cydraddoldeb profiad yn y ddwy iaith fel ei gilydd.

Gofynnir i ymgeiswyr amlinellu sut y byddant yn rheoli gofynion dwyieithog y prosiect hwn fel rhan o'u cais.

Rolau a chyfrifoldebau

Bydd BookTrust Cymru yn:

- Cynghori ar gynnwys a darparu mewnbwn gan randdeiliaid;
- Darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu cynnwys e.e. darluniau asedau brand a chanllawiau; deunyddiau rhigymau, cynnwys ar gyfer ffilmiau ychwanegol heb rigymau (os cytunir ar hyn) gan gynnwys sgriptio;
- Darparu adborth yn ystod y broses olygu;
- Darparu manylion cyswllt ag ysgolion a argymhellir, os oes galw;
- Darparu ffurflenni caniatâd i'w llenwi gan ysgolion a theuluoedd sy'n cymryd rhan.

Rydym ni'n rhagweld y bydd cynrychiolydd o BookTrust Cymru'n bresennol yn y sesiynau ffilmio i gynghori ynghylch cynnwys.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Darparu rheoli prosiect;
- Cwblhau'r holl ffilmio a golygu, gan gynnwys darparu cyfieithu ac isdeitlo ble bo'n addas, a chyflwyno'r ffeiliau mewn fformat a gytunwyd ar gyfer eu rhannu'n gyhoeddus;
- Recriwtio actorion yn ôl y galw;
- Cynhyrchu cynnwys ffilm o ansawdd a 'resolution' uchel yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys darparu isdeitlau ble bo angen;

- Sicrhau fod pob caniatâd perthnasol yn cael eu darparu;
- Diweddaru BookTrust yn rheolaidd o ran cynnydd y prosiect.

Dedleins

Dylai'r holl ddeunyddiau fod wedi gorffen ac yn barod i'w rhannu â'r cyhoedd erbyn 21 Mehefin 2019.

Cyllideb

Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw: **£5,000**

Dylai hyn dalu am bob cost, gan gynnwys teithio a threuliau.

Darparwch gyllideb wedi'i rhannu fesul eitem, gan gynnwys sut fyddech chi'n ei defnyddio i dalu am y gofynion craidd ac unrhyw gynigion eraill ar gyfer ychwanegu gwerth i'r gwaith.

Sut i gynnig

Er mwyn cynnig am y cytundeb hwn, a fyddech cystal â chyflwyno cynnig byr sy'n amlinellu:

- Profiad blaenorol o weithio ar brosiectau tebyg ac unrhyw brofiad perthnasol arall
- Yr hyn yr ydych chi'n cynllunio i'w gynhyrchu ar gyfer y prosiect
- Sut fyddwch chi'n cyflawni'r gofynion a ddisgrifir uchod
- Unrhyw heriau neu risgiau a sut y byddwch chi'n eu goresgyn
- Unrhyw wybodaeth arall a fydd, yn eich barn chi, yn cefnogi eich cynnig

Bernir cynigion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Ansawdd y cynnig o'i gymharu â gofynion y rhaglen, gan gynnwys dwyieithrwydd (50%)
2. Gwerth am arian (25%)
3. Record blaenorol o weithio ar brosiectau tebyg (15%)
4. Rheoli risg ac ansawdd y cynlluniau darparu (10%)

A fyddech cystal â chyflwyno'r cynigion yn Saesneg/Cymraeg gyda chyfieithiad Saesneg at:

Helen Wales, Pennaeth Gwlad – Cymru, Helen.wales@booktrust.org.uk

02922 676771

BookTrust Cymru
Enterprise House
127-129 Heol Bute
Caerdydd
CF10 5LE

Dyddiad cau derbyn cynigion: 5pm, Dydd Mercher 10 Ebrill 2019

Rydym ni'n amcangyfrif y bydd y gwaith yn dechrau tua chanol mis Ebrill 2019 (gynted â phosib ar ôl dyfarnu'n cytundeb).

Atodiad 1: Adnoddau Pori Drwy Stori

Adeg o'r flwyddyn	Am yr adnodd
Tymor yr hydref (hanner cyntaf)	<p>Her Rigymu</p> <p>Anfonir pecyn Her Rigymu Pori Drwy Stori i bob dosbarth Derbyn yng Nghymru yn rhad ac am ddim, ac mae'n cynnwys llyfryn o rigymau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob plentyn, tystysgrif i bob plentyn a phosteri ar gyfer yr ysgol neu'n dosbarth. Gall plant ddysgu rhai o'r rhigymau, neu bob un, a bydd sawl ysgol yn cynnal digwyddiadau dathlu i rannu'r rhigymau gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r Her Rigymu'n cael ei ddiweddarau ar gyfer ei gyflwyno o'r newydd ym mis Medi 2019, a bydd yn canolbwyntio ar y syniad o 'daith drwy rigym a chân'.</p>
yr hydref (cyn ac o gwmpas hanner tymor mis Hydref)	<p>Calendr Dyna Dywydd</p> <p>Bydd pob dosbarth Derbyn yng Nghymru'n derbyn calendr ar gyfer pob plentyn, yr argymhellir y dylid ei anfon adref dros hanner tymor Hydref. Gall rhieni a gofalwyr helpu'u plentyn i greu set ddata syml a hwyliog am y tywydd, a dysgu am amser, dyddiadau a dyddiau'r wythnos.</p>
Tymor y gwanwyn (lonawr)	<p>Bagiau Llyfrau Bwmerang</p> <p>Bydd pob ysgol yn derbyn set o Fagiau Llyfrau Bwmerang i'w defnyddio gyda'r dosbarth Derbyn yn ystod tymor y gwanwyn. Bydd ysgolion yn derbyn lleiafswm o un bag i bob pum plentyn, ac mae pob bag yn cynnwys dau lyfr stori a llun hyfryd y bydd plant yn mynd â nhw adref yn eu tro. Bydd pob plentyn hefyd yn derbyn ei gylchgrawn gweithgaredd ei hun i'w gadw. Mae'r adnodd yn cefnogi darllen er pleser yn y cartref ac yn annog rhieni a gofalwyr i ymuno â'u plant fel partneriaid yn eu haddysg.</p>
Tymor y gwanwyn (cyn hanner tymor Chwefror)	<p>Cardiau Ble Mae'r Ddafad</p> <p>Bydd pob plentyn yng Nghymru'n derbyn ei set ei hun o'r cardiau hyn er mwyn datblygu sgiliau rhifedd drwy chwarae gemau syml a hwyliog. Rydym ni'n cynghori athrawon i gyflwyno'r gemau yn y dosbarth a'u hanfon adref yn ystod hanner tymor Chwefror i gefnogi teuluoedd i ymwneud â rhifedd yn y cartref.</p>
Tymor yr haf (hanner cyntaf)	<p>Fy Llyfr</p> <p>Bydd pob plentyn yn y Derbyn yng Nghymru'n derbyn ei lyfr lloffion Fy Llyfr ei hun fel rhan o Pori Drwy Stori. Mae'r adnodd creu llyfr hwn yn cefnogi prosiectau cyffrous sy'n galluogi'r plant i ddod yn awduron eu hunain!</p>
Tymor yr haf (ychydig cyn gwyliau'r haf)	<p>Cylchgrawn Her yr Unicorn</p> <p>Bydd pob plentyn yn y Derbyn yn derbyn cylchgrawn Her yr Unicorn i fynd adref dros wyliau'r haf. Mae'r cylchgrawn yn cefnogi plant i barhau i ddefnyddio'u llythrennedd a rhifedd yn ystod y gwyliau drwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog fel gemau bwrdd a bingo, a bydd pob plentyn hefyd yn derbyn set o ddisiau a chownteri. Rydym ni'n annog athrawon i gyflwyno'r cylchgronau a'r gemau yn y dosbarth, a sicrhau fod rhieni'n deall mai pwrpas y cylchgrawn yw cael sbort gyda'i gilydd wrth ddysgu gartref.</p>

Atodiad 2: Her Rigymu Pori Drwy Stori – gwaith celf drafft

<p>Adnodd</p>	<p>Gwaith gweledol</p>
<p>Tystysgrif Her Rigymu. Un i bob disgybl, ar ôl cwblhau'r Her Rigymu.</p>	
<p>Her Rigymu Pori Drwy Stori: Canllaw'r Athro. Canllaw syml i gefnogi ymarferwyr wrth ddarparu'r adnoddau.</p>	
<p>Llyfryn Her Rigymu. Un i bob disgybl. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys pob rhigwm y gallai disgyblion eu dysgu ar gyfer yr Her Rigymu. Mae'r Llyfryn yn cynnwys 20 rhigwm / cân wedi'u rhannu'n 5 thema wythnosol.</p>	
<p>Poster Taith Her Rigymu. Un i bob dosbarth. Er mwyn i ddsbarthiadau allu cofnodi'u taith rigymu.</p>	

Atodiad 3: Her Rigymu Pori Drwy Stori – rhigymanu a chaneuon

	Rhigymanu / Caneuon Saesneg	Rhigymanu / Caneuon Cymraeg
Wythnos 1 – Rhigymanu Rhif	Ten Fat Sausages	Deg yn Cysgu'n Iach
	One and Two and Three Bananas!	Un a Dau a Thri Banana!
Wythnos 2 – Hwiangerddi	Miss Polly Had a Dolly	Hicori Dicori Doc
	Grand Old Duke of York	Fuoch Chi Erioed yn Morio?
Wythnos 3 – Clymau Tafod	Yellow Butter Purple Jelly	Pedoli Pedoli
	The Seasons	Tarw Corniog
Wythnos 4 – Rhigymanu Gwneud	A Sailor Went to Sea	Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed
	Head, Shoulder, Knees and Toes	Migldi Magldi
Wythnos 5 – Cerddi Hwyllog	Frank the Friendly Alien	Pry Pric yn y picnic
	I Eat My Peas with Honey	Dw i'n Hoffi

Atodiad 4: Cymeriadau anturio Pori Drwy Stori:

